**EITEM AR YR AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21ain Mehefin 2010**

**Ymgynghoriad ar y Cynllun Gwella (IP) a'r Cynllun Lleihau Risg (RRP) ar y Cyd 2010**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Cyflwyno, er mwyn cael cymeradwyaeth yr aelodau, y Cynllun Gwella (IP) a'r Cynllun Lleihau Risg (RRP) ar y cyd 2009-12, fel gwaith sy'n mynd rhagddo, yngyhyd â thestun drafft dogfen ymgynghoriad cyhoeddus cysylltiol.

## Cefndir

2 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub lunio Gynllun Lleihau Risg/cynllun gweithredu blynyddol, cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ei gylch, a'i gyhoeddi'n flynyddol, a hynny erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi. Mae hyn yn unol â Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth y Cynulliad.

3 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub lunio Cynllun Gwella, cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ei gylch, a'i gyhoeddi'n flynyddol, a hynny cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi 30 Medi yn y flwyddyn cyn y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi. Mae hyn yn unol â'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2010.

4 Hefyd, mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad yn ymwneud â phob blwyddyn ariannol cyn 31 Hydref yn y flwyddyn wedi'r flwyddyn y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi. Mae hyn yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

5 Mae canllawiau gan Lywodraeth y Cynulliad yn nodi bod amseru'r cyhoeddiadau hyn yn awgrymu y byddai'n gyfleus llunio un cynllun yn cynnwys adroddiad ar y flwyddyn ariannol flaenorol, crynodeb o'r amcanion y cytunwyd arnynt yn y flwyddyn gyfredol, a'r cynllun gwella, ac unrhyw amcanion ychwanegol o ran y Cynllun Lleihau Risg, am y flwyddyn ariannol i ddod.

## Cyflwyniad

6 Lluniwyd Cynllun Gwella a Chynllun Lleihau Risg ar y cyd, sy'n ymwneud â'r cyfnod 2009-2012. Mae hwn yn ymgorffori'r data amcanol, nad yw wedi ei archwilio, am 2008-09, lle bo hynny ar gael, ac amcanion lleihau risg ar gyfer Ebrill 2011 ymlaen, fel yr adroddwyd eisoes i'r Aelodau yn y cyfarfod ar 15 Mawrth 2010. Mae'r ddogfen hon ynghlwm yn Atodiad 1 fel gwaith sy'n mynd rhagddo.

7 Hefyd, lluniwyd testun dogfen ymgynghorol ddrafft, sy'n ymgorffori'r amcanion o ran gwella a lleihau risg ar gyfer 2011-12, ynghyd â chyfres o gwestiynau arfaethedig. Cafodd drafft cyntaf o'r ddogfen ei ystyried yn y cyfarfod o'r Panel Gweithredol ym Mai 2010, a bellach mae newidiadau a awgrymwyd wedi cael eu hymgorffori mewn ail ddrafft, ac mae hwnnw yn Atodiad 2.

## Gwybodaeth

8 Caiff y cynnwys, y cytunwyd arno, yn y ddogfen ymgynghorol ei ddefnyddio yn sail i ddogfen ddeniadol a hygyrch i'w dosbarthu'n eang ymhlith y cyhoedd a'r staff.

9 Ni chaiff y ddogfen Cynllun Gwella / Cynllun Lleihau Risg ei chyhoeddi ar bapur hyd oni fydd wedi ei chymeradwyo'n derfynol gan yr Awdurdod yn Hydref 2010, ond y bwriad yw y dylid ei gosod ar wefan yr Awdurdod fel gwaith yn mynd rhagddo y gellir cyfeirio ato, gyda newidiadau ac ychwanegiadau'n cael eu gwneud trwy gydol y cyfnod ymgynghori, a hynny yn dilyn archwiliad ac wrth i ragor o wybodaeth ddod ar gael.

10 Trefnwyd cynnal archwiliad ganol Gorffennaf gan KPMG ar y ffigurau perfformiad sydd yn y cynllun drafft.

11 Wedi diwedd y cyfnod ymgynghori, gofynnir i'r Panel Gweithredol ystyried yr ymatebion, ac i gytuno ar ddrafft terfynol o'r Cynllun Gwella / Cynllun Lleihau Risg, a hynny i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod llawn yn ei gyfarfod ym mis Hydref.

**Argymhellion**

12 Bod yr Aelodau'n:

(i) cymeradwyo cynnwys y ddogfen ymgynghorol sydd ynghlwm, er mwyn ei chyhoeddi a'i dosbarthu;

(ii) cefnogi'r cynnig i wneud y Cynllun Gwella a'r Cynllun Lleihau Risg ar gael ar wefan yr Awdurdod fel gwaith yn mynd rhagddo, fel y gellir cyfeirio atynt trwy gydol cyfnod ymgynghori 2010.